# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.31 – 11.26** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_09_07_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Keith Davies AC**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Bethan Jenkins AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**David Rees AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Simon Thomas AC** |
| Tystion: | **Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**<br>**Grace Martins, Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru**<br>**Marcus Richards, Llywodraeth Cymru**<br>**Neil Surman, Llywodraeth Cymru**<br>**Adam Turbervill, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Rogers (Ail Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

TRAWSGRIFIAD
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

**Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns; nid oedd neb yn dirprwyo ar ei rhan.**

**Diolchodd y Cadeirydd i Rebecca Evans am ei gwaith caled yn ystod ei hamser fel aelod o'r Pwyllgor.**

## 2 Y Bil Addysg Uwch (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth 7

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, sef y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a'i swyddogion.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y materion a ganlyn:

Nid yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru nodi bod yr holl reoliadau penodedig yn rhai sydd yn 'rhaid' eu dilyn. Felly, a all y Gweinidog gadarnhau bod gan y Bil ddarpariaeth ddeddfwriaethol ddigonol i alluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ymgymryd â phob un o'i swyddogaethau yn effeithiol a rhoi holl fwriadau polisi Llywodraeth Cymru ar waith?

Eglurhad ar y pwyntiau a godwyd yn nhystiolaeth Addysg Uwch Cymru ynghylch y pŵer i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad;

Diffiniad o'r hyn y mae'r term 'darparu' yn ei olygu yn adran 17, ac eglurhad ar y rhaglenni sy'n cael eu dilysu dramor: cyrsiau sy'n cael eu dilysu gan sefydliad o Gymru / cyrsiau sy'n cael eu dilysu gan sefydliad tramor sydd y tu allan i Gymru ond nid yw o reidrwydd yn sefydliad sydd wedi'i freinio.

## 3 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

3.1 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dilyn y cyfarfod ar 5 Mehefin 2014

3.2 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

3.3 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 4 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.